

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Canllawiau'r Llywydd

Canllawiau'r Llywydd i Aelodau'r  
Cynulliad ar y modd priodol i  
gynnal trafodion o dan Reol  
Sefydlog 28.19 i 28.26 (deisebau a  
gwrth-ddeisebau ynglŷn â  
Gorchmynion Gweithdrefn  
Cynulliad Arbennig a gyfeirir at  
bwyllgor)

Ebrill 2016

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/deddfwriaeth](http://www.cynulliad.cymru/deddfwriaeth)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Uned Cydgysylltu  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565  
E-bost: [cysylltu@cynulliad.cymru](mailto:cysylltu@cynulliad.cymru)  
Twitter: [@CynulliadCymru](https://twitter.com/CynulliadCymru)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Canllawiau'r Llywydd

Canllawiau'r Llywydd i Aelodau'r  
Cynulliad ar y modd priodol i  
gynnal trafodion o dan Reol  
Sefydlog 28.19 i 28.26 (deisebau a  
gwrth-ddeisebau ynglŷn â  
Gorchmynion Gweithdrefn  
Cynulliad Arbennig a gyfeirir at  
bwyllgor)

Ebrill 2016

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales





# Cynnwys

Cyflwyniad.....	5
Diben y Canllawiau hyn.....	5
Natur led-farnwrol Gweithdrefn Cynulliad Arbennig .....	6
Defnyddio'r Canllawiau hyn .....	6
Aelodaeth y Pwyllgor.....	7
Cynnal tegwch ystyriaethau'r Pwyllgor .....	8
Rhwymedigaethau Penodol Aelodau Pwyllgor.....	8
Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol .....	9



# Cyflwyniad

(Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17)

- 01.** Ers i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ddod i rym, mae swyddogaeth gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau ac apeliadau cynllunio, a cheisiadau ac apeliadau tebyg, wedi'i throsglwyddo o'r Cynulliad i Weinidogion Cymru.
- 02.** Fodd bynnag, gall Deddf Cynulliad neu Ddeddf Senedd y DU ei gwneud yn ofynnol bod cynnig penodol i wneud newidiadau i'r amgylchedd ffisegol yn cael ei wneud mewn Gorchymyn sy'n ddarostyngedig i "Weithdrefn Cynulliad Arbennig". Mewn achos felly, ni ellir rhoi'r cynnig ar waith heb gymeradwyaeth un o bwyllgorau'r Cynulliad (neu, o dan amgylchiadau cyfyngedig penodol, y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn).
- 03.** Fel arfer, ni fydd Deddf ond yn cynnwys y gofyniad hwn lle mae cynigion yn cynnwys y nodweddion canlynol:
  - Mae'r cynnig yn un a allai andwyo buddiannau y mae ganddynt hawl i gael diogelwch arbennig;
  - Dim ond trwy wneud darn o is-ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar ardal benodol y gellir rhoi'r cynnig ar waith – sef gorchymyn sy'n gorfod cael ei wneud gan Weinidogion Cymru, neu orchymyn a wneir gan awdurdod lleol neu gorff tebyg ac a gadarnheir gan Weinidogion Cymru.
- 04.** Math arbennig o graffu manwl yw "Gweithdrefn Cynulliad Arbennig" y mae'n rhaid i'r Cynulliad ymgymryd ag ef mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig. Mae'n cael ei lywodraethu gan Reol Sefydlog 28. Gelwir y gorchymynion sy'n destun y math hwn o graffu yn "Orchymynion Gweithdrefn Arbennig".
- 05.** Pan fydd Gweithdrefn Cynulliad Arbennig yn gymwys i Orchymyn, mae'n ddull diogelu sy'n ychwanegol at unrhyw ofynion statudol eraill, fel gofyniad i ymgynghori neu i gynnal ymchwiliad lleol cyn i Weinidogion Cymru (neu gorff arall) benderfynu gwneud neu gadarnhau'r gorchymyn. Rhaid cydymffurfio â'r holl ofynion hyn yn llawn cyn i Orchymyn Gweithdrefn Arbennig gael ei gyflwyno i'r Cynulliad.

## Diben y Canllawiau hyn

- 06.** Mae Gorchymynion Gweithdrefn Arbennig yn gosod cyfyngiadau penodol ar y ffordd y caiff Aelodau'r Cynulliad ymddwyn; nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol i fathau eraill o ddeddfwriaeth. Mae'r Canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar sut y dylai Aelodau ymddwyn pan gyflwynir Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig i'w ystyried gan un o bwyllgorau'r Cynulliad.
- 07.** Mae'r Canllawiau yn ychwanegu at ddarpariaethau Rheol Sefydlog 2 ynghylch buddiannau'r Aelodau a'r rheolau sydd wedi'u pennu yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sydd, ymhlith pethau eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad barchu egwyddorion anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweiniad.

# Natur led-farnwrol Gweithdrefn Cynulliad Arbennig

- 08.** Wrth graffu ar Orchymyn Gweithdrefn Arbennig, nid barn wleidyddol yn unig y mae'r pwyllgor (neu'r Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn) yn ei harfer. Nid yw hyn yn golygu nad yw materion polisi'n bwysig. Ond mae'r ffaith bod angen gwneud penderfyniad hefyd yn golygu archwilio ac ystyried effaith y Gorchymyn arfaethedig ar fuddiannau unigolion a chyrrff penodol (y deisebwyr ac unrhyw wrth-ddeisebwyr).
- 09.** Mae'r math hwn o benderfyniad, sy'n golygu asesu effaith deddfwriaeth arfaethedig ar fuddiannau unigol a lleol penodol yn cael ei ddisgrifio weithiau yn "lled-farnwrol" am fod iddo nodweddion sy'n cyfateb i rôl llys wrth iddo benderfynu mewn achos o anghydfod rhwng dau barti. O ganlyniad, mae'r llysoedd yn cael ymyrryd yn y broses er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn rhai teg, rhesymegol a gwrthrychol. Gan hynny, lle y gellid dehongli bod ymddygiad Aelodau fel pe bai'n bwrw amheuaeth ar y priodweddau hynny, gallai hynny arwain at ddyfarniad gan y llysoedd i roi'r penderfyniad ar y Gorchymyn o'r neilltu.
- 10.** Rhaid i benderfyniadau lled-farnwrol gael eu gwneud yn unol â rheolau cyfiawnder naturiol ac egwyddorion cyfraith weinyddol. Golyga hyn fod:
- rhaid i fuddiannau partïon y mae Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig arfaethedig yn effeithio arnynt gael eu trin yn deg, yn gyfiawn ac yn agored;
  - rhaid i'r holl dystiolaeth gael ei hystyried yn llawn;
  - rhaid i benderfyniadau gael eu seilio ar ystyriaethau perthnasol; a
  - rhaid i'r holl bartïon sydd â buddiant fod wedi cael eu trin yn gyfartal o ran mynediad i'r broses o wneud penderfyniadau ac i'r dystiolaeth a ystyriwyd yn y broses honno.
- 11.** Gall penderfyniadau'r Cynulliad, ac felly unrhyw Orchymyn a awdurdodir gan y Cynulliad, gael eu herio yn y llysoedd os na chaiff yr egwyddorion hyn eu dilyn.

## Defnyddio'r Canllawiau hyn

- 12.** Gall Aelodau'r Cynulliad gael eu cynnwys wrth ystyried Gorchymynion Gweithdrefn Arbennig mewn un o ddwy ffordd wahanol:
- a. mae'r Weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor a etholir at y diben hwnnw graffu'n fanwl ar wrthwynebiadau i Orchymynion arfaethedig, ar ffurf deisebau yn erbyn y Gorchymyn (ac weithiau gwrth-ddeisebau sy'n gwrthwynebu'r deisebau hynny). Mae rheolau penodol sy'n gymwys i Aelod Cynulliad sy'n gwasanaethu ar bwyllgor o'r fath;
  - b. gan amlaf, dim ond yr Aelodau Cynulliad hynny sy'n gwasanaethu ar y pwyllgor a fydd yn chwarae unrhyw ran mewn perthynas â'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig arfaethedig. Er hynny, mewn un math o achos, gall y Cyfarfod Llawn bleidleisio ar y Gorchymyn arfaethedig yn y pen draw. Mae hyn yn digwydd pan fydd y Pwyllgor yn argymhell na ddylid gwneud Gorchymyn oni chaiff ei ddiwygio mewn rhyw ffordd, a hynny er mwyn gweithredu gwelliant y mae deisebydd neu wrth-ddeisebydd wedi gofyn amdano. Yna, os nad ydynt yn cytuno y dylai'r gwelliannau a awgrymwyd gael eu gwneud, caiff Gweinidogion Cymru ofyn i'r Cyfarfod Llawn ganiatáu iddynt wneud y Gorchymyn heb orfod gwneud y gwelliannau.



- 13.** Dim ond at ystyriaeth pwyllgor ar Orchymyn Gweithdrefn Arbennig y mae'r Canllawiau hyn yn cyfeirio, ond maent yn cynnwys rhai rheolau sy'n gymwys i holl Aelodau'r Cynulliad o ran ymwneud â'r Aelodau Cynulliad hynny sydd ar y Pwyllgor.

## Aelodaeth y Pwyllgor

- 14.** Mae pwyllgorau'n ystyried deisebau (ac unrhyw wrth-ddeisebau) ynglŷn â Gorchymynion arfaethedig yn fanwl, gan gasglu tystiolaeth gan y partïon sydd â buddiant ynddynt, a rhaid i'w hargymhellion gael eu gwneud yn unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol.
- 15.** Mae Rheol Sefydlog 28 yn nodi'r sefyllfaoedd y mae'r hawl i gyflwyno deiseb yn erbyn Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn codi, pryd y caiff rhywun gyflwyno gwrth-ddeiseb i ddeiseb o'r fath, a phryd y mae'n rhaid i ddeisebau a gwrth-ddeisebau o'r fath gael eu hystyried gan un o bwyllgorau'r Cynulliad. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n golygu bod gan y deisebwyr a'r gwrth-ddeisebwyr hyn, yn ogystal â'r Gweinidog neu gorff arall sy'n dymuno gwneud y Gorchymyn neu sydd am iddo gael ei gadarnhau, hawl i gyflwyno'u hachosion i'r Pwyllgor, naill ai'n bersonol neu drwy gynrychiolydd, ac i weld achosion y partïon eraill a chyflwyno sylwadau arnynt.
- 16.** Mae natur led-farnwrol ystyriaeth y Pwyllgor yn golygu na ddylai Aelodau penodol wasanaethu ar y Pwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys Aelodau sydd â buddiannau yn yr etholaeth neu'r rhanbarth etholiadol, ac Aelodau eraill sydd â buddiannau sy'n gwrthdaro, oherwydd cysylltiad â'r mater sy'n cael ei ystyried, er enghraifft am eu bod yn aelodau o awdurdod lleol sydd wedi deisebu yn erbyn y Gorchymyn, neu'n aelodau o gorff anllywodraethol sydd wedi lobbïo yn ei erbyn.
- 17.** Pan fo Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru, ni fyddai'n briodol i Weinidogion fod yn aelodau o'r Pwyllgor, er bod Rheol Sefydlog 28.21 yn rhoi i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am wneud neu gadarnhau'r Gorchymyn (a hefyd i'r deisebwyr a'r gwrth-ddeisebwyr ac unrhyw awdurdod arall sy'n cefnogi'r Gorchymyn) hawl i gael gwrandawriad gan y pwyllgor naill ai yn bersonol neu drwy gynrychiolydd.
- 18.** Bydd y ffaith na ddylai Aelod wasanaethu ar y Pwyllgor am un o'r rhesymau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 16 a 17 uchod yn fater sydd wedi'i gofnodi. Ond mae rhesymau eraill sydd, efallai, yn llai amlwg.
- 19.** Ni chaniateir i Aelod fod yn aelod o'r Pwyllgor os oes ganddo fuddiant y mae'n ofynnol ei gofrestru o dan Reol Sefydlog 2 ac y gellir ystyried y bydd yn niweidiol i ystyriaeth ddiuedd o'r Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig,, neu y gall fod yn disgwyl buddiant, neu hyd y gŵyr yr Aelod, mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol fuddiant, neu y gall fod yn disgwyl ei gael.
- 20.** Dylai unrhyw Aelod y cynigir iddo fod yn aelod o'r Pwyllgor a sefydlwyd i ystyried y Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig hysbysu'r Pwyllgor Busnes am unrhyw fuddiant o'r math y cyfeirir ato ym mharagraff 19, ynghyd ag unrhyw fuddiant personol, buddiant etholaethol neu fuddiant rhanbarthol perthnasol sydd gan naill ai'r Aelod neu, hyd y gŵyr, aelod o'i deulu, neu y mae naill ai'r Aelod neu, hyd y gŵyr, aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael, ac y byddai'n rhesymol i eraill feddwl y byddai'r buddiant hwnnw'n niweidiol i ystyriaeth ddiuedd o'r Gorchymyn. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu bod natur y buddiant hwn yn bwrw amheuaeth ar allu'r Aelod i ystyried y mater yn deg, yn rhesymegol ac yn wrthrychol, yna ni fydd yr Aelod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor.
- 21.** Gallai buddiannau o'r fath gynnwys achosion lle mae'r Aelod (neu aelod o'i deulu) wedi bod yn weithredol wrth gefnogi neu wrthwynebu cynnig penodol sydd o dan ystyriaeth mewn rhyw ffordd - fel Aelod Cynulliad, fel Aelod Seneddol, neu yn rhinwedd swyddogaeth breifat. Er hynny, nid yw hyn yn golygu y byddai cefnogaeth gyffredinol i bolisi y mae'r cynnig wedi'i seilïo arno, er

enghraifft wrth ymgyrchu o blaid polisi mewn maniffesto plaid, yn atal Aelod rhag gwasanaethu ar y Pwyllgor. Bydd angen pwysu a mesur y math hwn o achos yn unol â ffeithiau penodol yr achos. Mae'n hanfodol bod y broses yn un deg, a hynny'n weladwy.

22. Rhaid peidio â seilio argymhelliad y Pwyllgor ar wybodaeth heblaw'r dystiolaeth a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor yn ffurfiol. Rhaid i aelodau'r Pwyllgor beidio â gweithredu ar sail sylwadau preifat. Lle mae Aelod wedi cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth breifat ynglŷn â'r Gorchymyn arfaethedig â pharti sydd â buddiant yn y mater, rhaid i'r Aelod hysbysu'r Pwyllgor Busnes. Os bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu bod natur y byddiant hwn yn bwrw amheuaeth ar allu'r Aelod i ystyried y mater yn deg, yn rhesymegol ac yn wrthrychol, yna ni ddylai'r Aelod wasanaethu ar y Pwyllgor.
23. Os daw Aelod yn ymwybodol – ar ôl iddo gael ei ethol – fod ganddo unrhyw rai o'r mathau o fuddiannau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 19 i 22, rhaid iddo roi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor ar unwaith. Dylai Aelod sy'n ansicr a yw ei amgylchiadau penodol ef yn golygu ei bod yn amhriodol i'r Aelod hwnnw wasanaethu ar y Pwyllgor (er enghraifft am ei fod yn dod o dan baragraff 21 uchod) ymgyngori â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad i gael cyngor ar y mater.

## Cynnal tegwch ystyriaethau'r Pwyllgor

24. Rhaid i'r Pwyllgor gymryd pob gofal i sicrhau nad oes unrhyw le i amau bod sylwadau preifat wedi cael eu cyflwyno a'u hystyried. Os daw tystiolaeth newydd i law yn ystod y broses o ffurfio argymhelliad, a honno'n dystiolaeth a fyddai'n effeithio ar yr argymhelliad hwnnw, rhaid iddi gael ei rhannu â'r holl bartïon hynny sydd â hawl i gyflwyno'u hachosion i'r Pwyllgor, er mwyn iddynt gyflwyno sylwadau arni os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
25. Rhaid i aelodau'r Pwyllgor beidio â thrafod y Gorchymyn arfaethedig ag unrhyw barti sydd â buddiant ynddo a rhaid iddynt wrthod ceisiadau am gyfarfodydd ag Aelodau eraill o'r Cynulliad, Aelodau Seneddol, dirprwyaethau o bobl leol, personau y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn effeithio ar eu buddiannau, grwpiau pwysu neu unrhyw berson arall sy'n dymuno cyflwyno sylwadau ynghylch y mater. Mae a wnelo hyn â phob math o gysylltiad â phartïon â diddordeb, gan gynnwys galwadau ffôn.

## Rhwymedigaethau Penodol Aelodau Pwyllgor

26. Oherwydd natur led-farnwrol rôl y Pwyllgor wrth wrando ar dystiolaeth a'i hystyried, ac wrth gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar sail ei asesiad o'r dystiolaeth honno, mae rhwymedigaethau penodol y mae'n rhaid i Aelodau sy'n cytuno i gael eu hethol i'r Pwyllgor eu derbyn. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gallu gwrandao ar yr holl dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ar lafar. Gan hynny, nid yw Rheol Sefydlog 28.20 yn caniatáu i Aelodau eraill ddirprwyo ar ran aelodau'r Pwyllgor fel y gellir ei wneud yn achos pwyllgorau eraill. Nid oes modd ychwaith i Aelodau beidio â bod yn bresennol yn y pwyllgor wrth iddo wrando ar dystiolaeth neu sylwadau eraill gan y partiön. Oherwydd hyn, rhaid i'r Aelodau dderbyn y rhwymedigaeth i drefnu eu bod yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Mae peidio â gwneud hyn yn debygol o arwain at orfod gohirio cyfarfod, gan beri anhawster posibl i'r rhai a fyddai wedi trefnu i fod yn bresennol neu i rywun eu cynrychioli.

## Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol

- 27.** Ar yr amod eu bod yn cadw at y rheolau sydd wedi'u nodi yn y paragraffau canlynol, mae Aelodau'r Cynulliad nad ydynt wedi'u hethol i wasanaethu ar y Pwyllgor sy'n ystyried Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig arfaethedig yn rhydd i gyflwyno sylwadau o blaid Gorchymyn arfaethedig neu yn ei erbyn.
- 28.** Rhaid i Aelodau'r Cynulliad barchu'r egwyddorion sydd wedi'u nodi uchod mewn perthynas ag aelodau'r Pwyllgor. Gan hynny, rhaid iddynt beidio â cheisio cyflwyno sylwadau preifat i Aelodau'r Cynulliad sy'n aelodau o'r Pwyllgor.
- 29.** Wrth gynrychioli buddiannau eu hetholwyr, wrth gefnogi achosion y mae ganddynt fuddiannau ynddynt ac, yn achos Aelodau Cynulliad sy'n aelodau o Lywodraeth Cymru, wrth gefnogi polisi'r Llywodraeth, mae'n briodol i Aelodau'r Cynulliad ffurfio a mynegi barn ar gynnig y mae Gorchymyn Gweithdrefn Arbennig yn cyfeirio ato, ar yr amod nad yw'n mynd yn groes i baragraff 28 mewn unrhyw ffordd.